

Bwletin Awdurdod S4C - Rhagfyr 2003

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 19 Rhagfyr 2003.

Animeiddio

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd cyflwyniad byr gan Chris Grace, Cyn-Gyfarwyddwr Animeiddio S4C. Roedd hwn yn gyfle i edrych yn ôl dros 21 mlynedd o animeiddio yng Nghymru a'r uchafbwyntiau o'r gwaith yr oedd Chris Grace wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu yn ystod y cyfnod hwn. Ar ddiwedd y cyflwyniad, achubodd yr Awdurdod ar y cyfle i ddiolch yn ddiwyll iawn i Chris Grace am ei gyfraniad gwych ac arloesol ac i ddymuno'n dda iddo ar gyfer y dyfodol.

TAC a Chôd Ymarfer ar Gomisiynu Rhaglenni

Adroddwyd bod swyddogion yn bwriadu cyflwyno dogfen i Ofcom cyn diwedd y flwyddyn ermwyn cwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfarfodydd gyda'r BBC

- (a) Soniodd y Cadeirydd bod llythyr caredig iawn wedi ei dderbyn oddi wrth Karl Davies, oedd yn ysgrifennu ar gais y Cyngor Darlledu, i fynegi eu diolch i'r Awdurdod am y croeso a gawsant adeg y cyfarfod ar 13 Tachwedd.
- (b) Adroddodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni ei bod wedi cwrdd â rhyw 30 o staff y BBC oedd yn gyfrifol am gyfrannu tuag at y deg awr o raglenni a roddir i S4C. Bu hwn yn ddigwyddiad arbennig o lwyddiannus.

Ymgynghoriad yr ITC/Ofcom – Uniad Carlton/Granada

Roedd yr ITC/Ofcom bellach wedi cytuno na fyddai yna broblem gyda Carlton/Granada yn parhau i werthu gofod hysbysebion ar ran S4C.

Isdeitlo

Soniwyd bod yr adran is-deitlo yn bwriadu arbrofi gyda gwahanol fathau o gyflwyno'r wybodaeth am is-deitlo ar sgrîn gan edrych ar wahanol logos, geiriau, at ati. Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

Perthynas S4C gyda Ofcom

Adroddwyd bod swyddogion wrthi yn casglu'r wybodaeth yr oedd Ofcom yn gofyn amdano o safbwynt sefydlu cwotâu. Cytunwyd y byddai'n bwysig, wrth gytuno ar gwtâu, i sefydlu'r egwyddor bod gan yr oriau ychwanegol roedd S4C yn darlledu ar ddigidol statws gwahanol na'r oriau analog ar hyn o bryd.

Gwobrau Plant BAFTA

Cyfeiriwyd at y ffaith bod Chris Grace, cyn-Gyfarwyddwr Animeiddio S4C, wedi derbyn Gwobr Arbennig BAFTA yn ystod seremoni Gwobrau Plant BAFTA yn Llundain ar 30 Tachwedd.

Shakespeare ar gyfer Ysgolion

Ymhellach i'r fenter lle'r oedd ysgolion yn llwyfannu dramâu ar sail sgriptiau Shakespeare wedi'i Animeiddio, adroddwyd y bu Ysgol Rhydfelen yn un o'r pedair ysgol a berfformiodd yn y Noson Gala a gynhaliwyd yn Llundain.

Cyfarfod Agored Ar-Lein

Soniodd y Cadeirydd ei bod wedi cynnal cyfarfod agored ar-lein ar 4 Rhagfyr yn stiwdios Tinopolis, yn dilyn ei ymddangosiad ar y rhaglen *Wedi 7*. Tra bu'r achlysur yn un digon llwyddiannus, teimlwyd er hynny bod angen datblygu'r digwyddiad. Roedd y cyfarfod ar-lein yn un weddol arloesol pan y'i cyflwynwyd rhyw bum mlynedd yn ôl, ond roedd nawr angen symud ymlaen i wneud y gorau o'r datblygiadau technegol oedd wedi digwydd ers hynny.

Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol

Adroddodd y Cadeirydd ar gyfarfod o'r Comisiwn yng Nghymru a fynychodd. Soniodd ei bod hi'n dda i weld bod y Comisiwn yn awyddus i ddatblygu perthynas gyda'r gymuned Cymry Cymraeg.

Apêl Elusennol S4C

Soniodd y Cadeirydd y byddai yna raglen arbennig o *Twrio* ar 20 Rhagfyr lle byddai arian yn cael ei godi er lles apêl elusennol S4C. Ymhlith yr eitemau i wylwyr geisio amdanynt oedd llun olew gwreiddiol yr oedd Kyffin Williams wedi ei roi ar gyfer yr ocsiwn. Fe fyddai'r digwyddiad yma yn cwblhau yr apêl ar gyfer 2003, ac ar ddiwedd y rhaglen fe fyddai'r Cadeirydd yn cyflwyno siec i Ty Hafan/Ty Gobaith. Adroddodd Cefin Campbell, Cadeirydd Apêl Elusennol S4C, y byddai cyfweiliadau ar gyfer elusen nesaf S4C yn cael eu cynnal ym mis Ionawr.

Ofcom

Atgoffwyd yr Aelodau y byddai Ofcom yn dod i fodolaeth swyddogol ar 29 Rhagfyr 2003.

Adolygiad S4C

Ystyriodd yr Awdurdod ddrafft diweddaraf y papur ar yr adolygiad mewnol. Mynegwyd sbectrwm o farnau a chytunwyd y byddai drafft pellach yn cael ei baratoi i adlewyrchu pwyntiau ychwanegol wedi'u gwneud yn ystod y drafodaeth hon.

Cynllun Corffaethol 2004-06

Ystyriwyd Cynllun Corfforaethol awgrymedig ar gyfer y cyfnod 2004-06. Gan na fyddai'r broses allanol o adolygu S4C yn debygol o gael ei gyflawni tan y Pasg, argymhellwyd y dylid diweddarau'r Cynllun presennol yn hytrach na chyflwyno strategaeth newydd sbon. Tynnwyd sylw'r Aelodau at nifer o newidiadau wedi'u gwneud ar gyfer Cynllun 2004-06 i gymharu â Chynllun 2003-05 a gofynnwyd am benderfyniadau ar nifer o dargedau meintiol. Cytunwyd ar y rhain a chymeradwyodd yr Aelodau gweddiill y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2004-06 fel y'i cyflwynwyd.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiadau'r y Prif Weithredwr – Materion i'w trafod ac er gwybodaeth
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 5 Rhagfyr 2003.
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol